


# Cronfa Grant Cymunedau Cryf 2020 - 2025

# Nodiadau Canllaw

I gael cyngor neu i wirio a ydych yn gymwys ar gyfer y rhaglen grant hon, cysylltwch â'n tîm Grant Cymunedau Cryf gyda'ch syniad:

E-bost: scgfapplications@valeofglamorgan.gov.uk

## Beth yw'r Gronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf?

Bydd y Gronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf yn cynnig grantiau i Grwpiau Cymunedol, sefydliadau Gwirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned tuag at gostau mentrau ym Mro Morgannwg sy'n helpu i ategu gweledigaeth y Cyngor o "gymunedau cryf gyda dyfodol disglair".

Mae'n bleser gennym eich hysbysu bod y rownd hon o Gronfa Grant Cymunedau Cryf yn cael ei hariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. O'r herwydd, bydd gofynion penodol yn eich cais i ddangos sut mae eich prosiect yn cyd-fynd ag Amcanion y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac os bydd yn llwyddiannus, bydd gofyn i brosiectau ddarparu rhywfaint o dystiolaeth benodol ynghylch eu cynnyrch a'u canlyniadau. Fel bob amser, bydd y tîm Cymunedau Cryf ar gael i'ch helpu i we-lywio'r rhain.

**Nod y gronfa yw:**

1. Gwella gwydnwch sefydliadau/grwpiau neu eu gweithgareddau drwy ariannu gweithgareddau sy'n ychwanegu gwerth at eu gwaith presennol a lleihau eu dibyniaeth ar arian grant yn y dyfodol;

2. Cynnig arian cychwynnol tuag at fentrau sy'n dangos eu bod yn gynaliadwy yn yr hirdymor;

3. Gwneud gwaith ymgynghori, dichonoldeb, dylunio a gwaith arbenigol arall i lunio cynigion ar gyfer gweithgareddau a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol;

4. Talu costau cyfalaf cynlluniau drwy brynu peiriannau, offer neu asedau eraill neu

5. Wneud gwaith a fyddai'n galluogi darparu gwasanaethau, er enghraifft, drwy gynyddu'r potensial i greu incwm.

6. Gwneud cyllid Adran 106 yn agored i gymunedau penodol pan fo datblygiadau wedi'u cyflawni. Caiff cyllid ar gyfer cyfleusterau a phrojectau mannau agored mewn ardaloedd penodol eu cyhoeddi wrth agor pob rownd i geisiadau;

7. Annog projectau sy'n cynnwys ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

8. Annog prosiectau sy'n helpu cymunedau'r Fro i ymdopi â chostau byw cynyddol.

.

## Sut mae ymgeisio?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais am Grant Cymunedau Cryf. Rhaid i unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais gysylltu â Thîm y Grant Cymunedau Cryf Cyngor cyn llenwi ffurflen gais, fel y gellir asesu cymhwysedd yn gynnar.

E-bostiwch: scgfapplications@valeofglamorgan.gov.uk gyda pharagraff byr yn amlinellu eich prosiect, fel y gallwn eich cynghori ymhellach.

Byddwn yn rhoi ffurflen ar-lein i chi sy'n briodol i'r swm grant rydych yn gofyn amdano. Fel arfer bydd angen gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais. Yn benodol, bydd angen tystiolaeth o unrhyw ganiatadau neu drwyddedau sydd eu hangen i ganiatáu i chi gyflawni eich project. Bydd angen dyfynbrisiau ariannol hefyd yn y mwyafrif o'r amgylchiadau.

Nid ystyrir ffurflenni cais anghyflawn na rhai a gyflwynir heb y ddogfennaeth ategol.

## Pwy all wneud cais?

Mae'r categorïau canlynol o sefydliadau yn gymwys i wneud cais:

- Grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol
- Cynghorau Tref a Chymuned, yn annibynnol neu mewn partneriaeth â grŵp cymunedol lle mae gan yr olaf ddiffyg statws cyfreithiol
- Consortia o'r uchod, gan gynnwys y rhai sydd wedi sefydlu trefniadau llywodraethu ffurfiol megis mentrau cymdeithasol*

** Gweler y 'Crynodeb o Strwythurau Cyfreithiol' ar wahân am ganllawiau ar y strwythurau cyfreithiol sy'n gysylltiedig yn aml â menter gymdeithasol a nodweddion strwythurau cymwys.*

## Am faint y gallwn ni wneud cais?

Croesewir ceisiadau am grantiau rhwng £3,001 a £25,000  Y grant lleiaf yw £3,001. Yr uchafswm grant a gynigir at unrhyw brosiect yw £25,000. Rhaid cwblhau pob prosiect llwyddiannus **dim hwyrach na 31 Mawrth 2025.**

Bydd dyddiadau cau perthnasol ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn ymddangos ar dudalen we Cronfa Grant Cymunedau Cryf y Cyngor: [https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/Business-Support/Strong-Communities-Grant.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/Business-Support/Strong-Communities-Grant.aspx)

Mae gwerth am arian yn ffactor asesu allweddol ac mae'r galw'n debygol o fod yn uchel. Disgwylir i ymgeiswyr wneud cyfraniad, naill ai'n ariannol a/neu 'gyfatebol' tuag at gost gyffredinol y prosiect. Bydd lefel y cyfraniad yn cael ei asesu fesul achos.

Peidiwch â gadael i'r ffurflen gais eich digalonni rhag gwneud cais – mae'r Cyngor yma i'ch cefnogi drwy'r broses o wneud cais. Rydym yn gobeithio y bydd hyn o gymorth i chi yn y dyfodol pryd byddwch yn gwneud cais am arian arall gan gyrff eraill.

Dylai faint o wybodaeth yr ydym yn disgwyl i chi ei rhoi ar y ffurflen hon fod yn gymesur â'r swm o arian yr ydych yn gwneud cais amdano. Rydym angen gwybod beth yn union rydych yn bwriadu gwario eich grant arno, yr hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni drwy'ch prosiect, pwy fydd yn elwa a sut y bydd hyn yn eich helpu yn y tymor hwy. Gallwch gysylltu â ni ar unrhyw adeg i gael cymorth i lenwi'ch cais ac rydym yn eich annog i gyflwyno drafft cynnar i ni fel y gallwn roi adborth, os bydd angen.

**Cyfanswm y gronfa dros 5 blynedd yw £837,533 tan fis Mawrth 2025***

Mae **£150,000** ar gael ar gyfer projectau Cyfalaf dros 3 blynedd.
Mae **£660,000** ar gael ar gyfer projectau Refeniw dros 3 blynedd
Mae **£27,533** yn gronfa heb ei dyrannu a ddelir wrth gefn o'r rhaglen grant flaenorol.

Yn ogystal, gallai cyfraniadau Adran 106 a dderbynnir at ddibenion Cyfleusterau Cymunedol a Mannau Agored fod ar gael mewn ardaloedd penodol. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ceisio cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at gostau darparu neu wella seilwaith cymunedol, er mwyn lliniaru'r effeithiau sy'n codi o ganlyniad i'w datblygiad.

Mae'n bwysig nodi y gellir ond gwario arian A106 ar gyfleusterau lle mae'r datblygiad newydd wedi cyfrannu at yr angen i ddarparu neu wella'r cyfleusterau. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos, wrth wneud cais am unrhyw gyfraniadau A106, fod hyn wedi cael ei ystyried.

Fel arfer, mae cyllid A106 ar gael ar gyfer projectau cyfalaf yn unig, ond gellir cefnogi projectau refeniw sy'n cysylltu â'r anghenion a nodwyd mewn datblygiadau newydd hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth am arian adran 106 ar gael gan Swyddog Adran 106 y Cyngor Charlotte Raine, e-bost clraine@valeofglamorgan.gov.uk.

## Beth y gellir ei ariannu?

Dyma rai enghreifftiau o bethau y gellid eu cefnogi. (Nid yw hon yn rhestr gyflawn).

- Projectau sy'n gwella gallu'r ymgeisydd i greu incwm
- Projectau sy'n cefnogi ymgeisydd i dderbyn a chynnal ased
- Astudiaethau dichonoldeb, mapio cymunedol a dyluniad manwl i baratoi ar gyfer ceisiadau am gyllid
- Cyllid o flwyddyn i flwyddyn os gall y projectau ddangos cynaliadwyedd yn y tymor hwy
- Prynu a llogi offer, peiriannau neu asedau eraill
- Costau marchnata a chyfieithu
- Gwaith cyfalaf, gan gynnwys adnewyddu adeiladau a mannau agored
- Buddsoddiadau sy'n lleihau costau rhedeg hirdymor y sefydliad sy'n ymgeisydd
- Buddsoddiadau sy'n gwella effeithlonrwydd y sefydliad sy'n gwneud cais
- Gweithgareddau sy'n cyfuno adnoddau ar draws sawl sefydliad er mwyn arbed costau
- Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill
- Cost staff, dim ond lle mae'r gost yn ymwneud â chyflawni'r project
- Hyfforddiant
- Teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â'r project, gan gynnwys costau gwirfoddolwyr
- TAW nad oes modd ei hadennill
- Llogi lleoliad
- Cyfraniad at orbenion y project hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm gwerth y cyllid y gwnaed cais amdano

| Beth na ellir ei ariannu? |
|---|

Dyma enghreifftiau o bethau na roddir arian ar eu cyfer fel rheol:
(Nid yw hon yn rhestr gyflawn).

- Costau rhedeg o ddydd i ddydd (e.e. staff craidd, biliau'r adeilad, treth gyngor, rhent ac yswiriant)
- Projectau sy'n fwy priodol i gael cymorth gan gynlluniau eraill y Cyngor e.e. cronfa digwyddiadau;
- Projectau nad ydynt yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor
- Projectau na allant ddangos angen
- Digwyddiadau codi arian untro
- Projectau sy'n mynd rhagddynt neu'n cychwyn cyn i ni gadarnhau ein grant
- Eitemau sydd o fudd i unigolion yn bennaf (er enghraifft offer na chaiff ei rannu)
- Gweithgareddau crefyddol neu wleidyddol, gan gynnwys grwpiau ymgyrch
- Lletygarwch e.e. prynu alcohol
- Gwaith trwsio a chynnal arferol - e.e. gwasanaethu boeler, torri gwair
- Projectau sydd ddim yn digwydd ym Mro Morgannwg
- TAW y mae modd ei hadennill

Efallai y bydd yr enghreifftiau canlynol yn eich helpu i benderfynu ar gymhwysedd eich project. Sylwch, fodd bynnag, nad yw prosiectau sy'n ymestyn y tu hwnt i flwyddyn bellach yn gymwys i gael cymorth. **Rhaid cwblhau pob prosiect dim hwyrach na 31 Mawrth 2025.**

## Yr hyn y byddem yn ei gefnogi: Astudiaeth Achos 1:

### Y Gegin Gymunedol

Mae cymuned yn nodi'r angen am glwb cinio drwy siarad â defnyddwyr y ganolfan gymunedol a phreswylwyr eraill. Gellid defnyddio'r gegin hon hefyd ar gyfer priodasau a swyddogaethau eraill, gan felly wneud y cyfleuster cyffredinol yn fwy cynaliadwy. Nid oes cegin gradd fasnachol yn y Neuadd. Gellid defnyddio'r arian i brynu offer ac i osod y gegin. Gallai'r gronfa hefyd gefnogi hyfforddi gwirfoddolwyr a marchnata y clwb ei hun. Gellid hefyd rhoi cymorth ar gyfer marchnata'r gegin sydd newydd ei gosod. Byddai'r clwb cinio yn talu am ei gostau ac yn cynhyrchu incwm ychwanegol drwy godi tâl priodol a fyddai'n caniatáu buddsoddi mewn offer newydd yn y dyfodol.

**Enghraifft o gostau cymwys**

| | |
|---|---|
| Gosod cegin newydd ac offer arall yn y ganolfan gymunedol | £12,500 |
| Cydlynydd project / gwirfoddolwr dros 2 flynedd (rhan-amser) | £5,000 |
| Hyfforddi ac ardystio gwirfoddolwyr | £1,800 |
| Costau teithio i'r gwirfoddolwyr | £300 |
| Deunyddiau marchnata (fflachddeunyddiau, taflenni a 2 hysbyseb yn y wasg leol) | £880 |
| Datblygu bwydlenni | £600 |
| **Cyfanswm cost y project** | **£21,080** |

**Bydd disgwyl i ymgeiswyr am grantiau o rhwng £3,001 a £25,000 wneud cyfraniad tuag at gost gyffredinol y project.**

**Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi:**
Mae cymuned yn meddwl y bydd clwb cinio yn gweithio ac yn awyddus i dalu cwmni arlwyo i ddod i mewn a darparu'r gwasanaeth hwn gan ddefnyddio'r cyfleuster presennol. Mae am dalu staff y sesiynau llogi ystafelloedd a chyflogau i gefnogi'r gweithgaredd. Mae'n bwriadu codi swm nominal ar gyfer cinio neu ei gynnig am ddim sy'n golygu bod y grant yn rhoi cymhorthdal tuag at gostau rhedeg y gwasanaeth hwn.

## Yr hyn y byddem yn ei gefnogi: Astudiaeth achos 2

### Projectau hyfforddi a chyflogi defnyddwyr gwasanaeth – arlwyo

Mae sefydliad a arweinir gan y gymuned yn nodi cyfleoedd hyfforddi ar gyfer ei ddefnyddwyr gwasanaethau drwy sefydlu caffi cymunedol. Gellid defnyddio'r arian i ddatblygu'r lle mewn caffi, i ddarparu cyllid sbarduno ar gyfer costau rhent a staffio. Byddai gwirfoddolwyr yn ennill sgiliau gwerthfawr dros gyfnod o 3 blynedd, a gobeithio y byddan nhw'n symud i gyflogaeth. Byddai'r caffi hefyd wedi datblygu sylfaen cwsmeriaid ac incwm rheolaidd dros y cyfnod hwn i'w alluogi i dalu costau yn y tymor hwy.

| **Enghraifft o gostau cymwys** | |
|---|---|
| Gosod cegin newydd | £12,600 |
| Rhent am ofod @ £2,000 y flwyddyn | £6,000 |
| Cydlynydd project/gwirfoddolwr dros 3 oed | £20,000 |
| Costau teithio i'r gwirfoddolwyr | £1200 |
| Deunyddiau marchnata (fflachddeunyddiau, taflenni a 2 hysbyseb yn y wasg leol) | £1500 |
| **Cyfanswm cost y project** | **£41,300** |

**Byddai unrhyw gynnig grant yn cael ei gyfyngu i uchafswm o £25,000 tuag at gost gyffredinol y project.**

**Bydd disgwyl i ymgeiswyr am grantiau o rhwng £3,001 a £25,000 wneud cyfraniad tuag at gost gyffredinol y project**

**Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi**

Cost swyddog hyfforddi i hyfforddi 36 o gleientiaid mewn amgylchedd dosbarth mewn sgiliau arlwyo. Ni ellid nodi unrhyw incwm hirdymor drwy'r dull hwn. Dim ond ar ôl tair blynedd y byddai'r project yn dod i ben.

## Yr hyn y byddem yn ei gefnogi: Astudiaeth Achos 3

### Hyb a Gardd Gymunedol

Mae cymuned yn nodi'r angen am hyb cymunedol yn yr ardal oherwydd pwysau cynyddol ar ei chyfleusterau presennol oherwydd datblygiad tai newydd ar gyrion y pentref. Mae Adran 106 ar gael i'r pentref dan sylw. Gellid rhoi cyllid mewn dau gam i gynnal arolygon cymunedol manwl a'r dyluniadau canlynol o gyfleusterau newydd. Nododd y gymuned yr angen am hyb cymunedol, gan gynnig ystafell TGCh, siop goffi a chyfleusterau crèche. Roedd hefyd yn nodi angen am ardd gymunedol mewn llety preswylydd cyfagos i bobl hŷn. Byddai'r projectau hyn wedyn yn cael eu costio a gallai grant cam 2 gael ei ddyfarnu yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau Ward lleol.

**Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi.**

Cynnig gan nifer gyfyngedig o breswylwyr i adeiladu ardal chwarae heb unrhyw dystiolaeth o angen am gyfleusterau o'r fath. Gall y Cyngor helpu preswylwyr i nodi angen drwy ei becyn mapio cymunedol. Gwyliwch y fideo byr hwn ar ein sianel YouTube i glywed am rai cymunedau yn y Fro sydd wedi cymryd rhan.

## Yr hyn y byddem yn ei gefnogi: Astudiaeth Achos 4

### Cymryd asedau – Clwb chwaraeon

Mae lawnt clwb bowlio, sy'n cymryd ased sy'n eiddo i'r Cyngor ar hyn o bryd, yn cael ei thorri gan gontractwyr. Ni all fforddio gwneud hyn unwaith y bydd yn cymryd yr ased. Mae'n gweithio gyda dau glwb arall gerllaw i weld sut y gallant leihau costau torri porfa a pheintio. Penderfynwyd y byddai peiriant torri gwair a threlar i'w gludo yn eu helpu i leihau costau. Mae'r clwb yn meddwl efallai y bydd yn gallu defnyddio'r peiriant torri gwair a'r gwirfoddolwyr i gynnig gwasanaethau mewn clybiau eraill ar draws y Sir. Byddai talu am y gwasanaeth hwn yn helpu i dalu costau rhedeg.

Maent hefyd yn credu y gallai'r clwb gael ei rentu allan ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau, felly maent wedi gofyn am offer cynadledda.

**Enghraifft o gostau cymwys**

| | |
|---|---|
| Peiriant torri gwair arbenigol yr eisteddir arno | £8,000 |
| Trelar a 3 bachyn i gludo rhwng clybiau | £1,800 |
| Hyfforddiant iechyd a diogelwch | £600 |
| 3 sied diogelwch a chloeon | £1,500 |
| Taflunydd, sgrin a siart fflip sy'n sefyll | £1,000 |
| **Cyfanswm cost y project** | **£12,900** |

**Bydd disgwyl i ymgeiswyr am grantiau o rhwng £3,001 a £25,000 wneud cyfraniad tuag at gost gyffredinol y project**

**Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi:**
Cost 3 blynedd o dorri gwair gan gontractwr gardd
Les 3 mlynedd peiriant torri gwair (beth sy'n digwydd ar ddiwedd 3 blynedd?)
Costau gwasanaethu ac atgyweirio parhaus y peiriant torri gwair

### A ddylwn i gynnwys TAW yn fy nghais?

Dim ond os na allwch ei hawlio yn ôl gan Gyllid a Thollau EM y cewch gynnwys TAW yn y cais. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am geisio cyngor ar TAW. Yn anffodus, ni all y Cyngor gynnig hyn.

### Am ba hyd y mae grant yn para?

Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd eich llythyr cynnig cyllid yn nodi erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid cwblhau'r project. Bydd gofyn i chi hefyd adrodd ar gynnydd eich project o bryd i'w gilydd yn unol â thelerau ac amodau eich cynnig grant.

## Sut caiff y grant ei dalu?

Caiff y grant ei dalu yn unol â'r telerau a'r amodau a nodir yn y llythyr ariannu. Fel arfer, bydd y grant yn cael ei dalu'n ôl-weithredol ac yn amodol ar gyflwyno pob anfoneb/derbynneb i'r Cyngor. Mewn amgylchiadau eithriadol lle gallai hyn achosi anawsterau gwirioneddol i sefydliadau bach, bydd taliadau fesul cam yn cael eu hystyried. Y peth gorau i'w wneud yw siarad â ni am eich sefyllfa ariannol a byddwn yn gwneud ein gorau i weithio allan sut i dalu'r grant. Bydd eich llythyr cyllido yn nodi swm y grant fel canran o gyfanswm cost y prosiect. Ni ellir dyrannu taliadau'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf (CGCC) yn erbyn elfennau penodol o'r prosiect.

## Beth yw'r amserlen ymgeisio?

Bydd y cyfnod ymgeisio am y cyllid grant yn cael ei hysbysebu ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.. Rhaid i'ch cais gael ei gwblhau â'r holl atodiadau a'i gyflwyno dros e-bost erbyn hanner dydd ar y dyddiau cau. Gallwch gyflwyno'ch cais ar unrhyw adeg yn ystod y ffenestr hon. Cadwch mewn cysylltiad â ni ac anfonwch unrhyw gwestiynau i scgfapplications@valeofglamorgan.gov.uk

Os yw eich cais yn llwyddiannus, cewch lythyr ariannu a dogfennau cysylltiedig i'w llofnodi a'u dychwelyd yn electronig. Bydd y pecyn yn esbonio unrhyw amodau, y broses gymeradwyo a sut i gyflwyno cais am grant. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ar y pwynt hwn, byddwn yn hapus i'ch helpu.

## Pwy sy'n gwneud y penderfyniad a beth yw'r meini prawf asesu?

Bydd y Swyddog Grantiau perthnasol yng Nghyngor Bro Morgannwg yn archwilio'ch cais ac yn trafod unrhyw ymholiadau gyda chi.

Bydd ceisiadau am grantiau rhwng £3,001 a £25,000 yn cael eu cyflwyno i gyfarfod panel gwerthuso grantiau i'w hystyried. Bydd y panel yn cynnwys:

- Arweinydd y Cyngor
- Yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Adfywio
- Un cynrychiolydd o Gyngor Tref
- Un cynrychiolydd o Gyngor Cymuned
- Un cynrychiolydd o bob un o'r rhoddwyr cyllid trydydd parti cylchol
- Un cynrychiolydd o Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
- Un cynrychiolydd o aelod-sefydliad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Un cynrychiolydd o Sefydliad Waterloo

Gall y panel grantiau ddewis gosod amodau ar eich cynnig grant os yw'n llwyddiannus. Byddwch wedyn yn cael eich hysbysu'n ysgrifenedig o'r penderfyniad ar eich cais.

Bydd y panel yn asesu eich cais yn ôl y meini prawf canlynol:

**<u>Meini Prawf Asesu</u>**

**Bydd cynigion project y Gronfa Grant Cymunedau Cryf yn cael eu sgorio gan ddefnyddio'r raddfa sgorio ganlynol o 0 – 25 i roi cyfanswm uchaf posibl o 100. Ni fydd ceisiadau sy'n sgorio llai na'r trothwy ansawdd isaf o 70 yn cael eu hystyried.**

| | **Maen Prawf Blaenoriaeth** | **Sgôr** |
|---|---|---|
| **1** | Cyd-fynd yn strategol â:<br><br>• Ymyriadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.<br>• Blaenoriaethau Cyngor y Fro (Cynllun Corfforaethol 2020-2025 a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024)<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 0 - 25 |
| **2** | Gwerth am arian, gan gynnwys nifer gymesur o allbynnau a chanlyniadau a addewir i lefel yr arian y gofynnir amdani | 0 - 25 |
| **3** | Ymrwymiad rhanddeiliaid wrth siapio a gweithredu'r project | 0 - 25 |
| **4** | Gwerth ychwanegol a Chynaliadwyedd | 0 - 25 |
| | **Cyfanswm** | **100** |

**<u>Maen Prawf 1 – Cyd-fynd yn strategol</u>**
**<u>Sgôr o hyd at 25</u>**

Os nad ydych chi'n siŵr sut mae eich project yn cyd-fynd â'r adran hon, peidiwch â phoeni, cysylltwch â'r Swyddog Grant Cymunedau Cryf i gael cyngor Y syniad y tu ôl i ddangos y cysylltiadau hyn yw sicrhau bod y prosiectau a ariennir yn berthnasol i flaenoriaethau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

**Addasrwydd o ran ymyriadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.** Mae'r rhain fel a ganlyn:

| **Cymunedau a Lle** |
|---|
| Gwelliannau i ganol trefi a'r stryd fawr **(W1)**<br>Cymorth i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol a chreadigol lleol **(W6)**<br>Gwelliannau i deithio llesol a phrosiectau trafnidiaeth werdd eraill ar raddfa fach **(W7)**<br>Gwirfoddoli ag effaith a/neu brosiectau gweithredu cymdeithasol **(W9)**<br>Mesurau cymunedol i leihau costau byw ac ati **(W13)**<br>Astudiaethau dichonoldeb perthnasol **(W14)** |

Mae'n rhaid i bob prosiect sy'n cael ei ariannu gan CFfGDU ym Mro Morgannwg gyd-fynd ag un neu fwy o'r ymyriadau a restrir uchod, ac mae'n rhaid iddo gyfrannu at y cynnyrch a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r ymyrraeth honno. (Gweler Atodiad A)

**Cyfraniad at werthoedd Cyngor Bro Morgannwg a nodir yn y Cynllun Corfforaethol 2020 – 25 ac yn gyson ag amcanion llesiant y Cyngor.** Y rhain yw:

| |
|---|
| **Amcan 1:** Gweithio gyda a thros ein cymunedau |

| |
|---|
| **Amcan 2:** Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |

| |
|---|
| **Amcan 3:** Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

| |
|---|
| **Amcan 4:** Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd |

Dylai projectau allu dangos cysylltiad ag un neu ragor o'r amcanion. Ar gyfer grantiau dros £3,000 nodwch sut mae eich project yn gyson â'r canlyniad(au) yr ydych wedi'u dewis.

**Cyfraniad i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020 – 2024 – Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau dyfodol tecach.**

**Mae'r cynllun yn cynnwys 10 Amcan Cydraddoldeb Strategol.** Y rhain yw:

1. Gwella sut rydym yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â grwpiau a ddiogelir am ein gwaith a'n penderfyniadau

2. Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, nodi a oes bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn y Cyngor erbyn Mawrth 2021, ac adrodd yn ôl yn flynyddol ar y ddau.

3. Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y Cyngor ar gyfer grwpiau a ddiogelir, yn enwedig pobl anabl a phobl ifanc, er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol yn agosach erbyn Mawrth 2024.

4. Parhau i weithio ar ddatblygu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol sy'n cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial drwy weithredu ystod o gamau gweithredu erbyn Mawrth 2024.

5. Ceisio barn grwpiau a ddiogelir ar newidiadau arfaethedig i bolisi, cyllidebau a gwasanaethau

6. Annog pobl â nodweddion a ddiogelir i adrodd am droseddau casineb, aflonyddwch a gwahaniaethu

7. Datblygu a gweithredu prosesau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â throseddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

8. Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion a ddiogelir a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.

9. Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafnidiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn.

10. Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hygyrchedd, i grwpiau a ddiogelir.

Mae'r amcanion cydraddoldeb hyn yn ategu ein gwaith i gyflawni'r pum ffordd o weithio a chyfrannu at ein hamcanion lles fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dylai projectau allu dangos eu bod yn gydnaws â'r cynllun a'i amcanion**.**

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gwella lles Cymru yw nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Yn y Ddeddf mae **7 amcan lles**: Y rhain yw:

- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- Cymru ffyniannus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu

Mae **5 ffordd o weithio** yn y Ddeddf:

- Integreiddio
- Cydweithio
- Atal
- Hirdymor
- Cynnwys Pobl

Dylai projectau allu dangos cysylltiad ag un neu ragor o'r targedau lles uchod a ffyrdd o weithio. Ar gyfer projectau dros £3,000 nodwch sut mae eich project yn gyson â'r rhai yr ydych wedi'u dewis: Ar gyfer projectau dan £3,000 ticiwch pa rai sy'n berthnasol i chi.

## Ail-lunio Gwasanaethau

Mae'r Cyngor yn darparu rhaglen ail-lunio gwasanaethau. Mae'r rhaglen hon yn ceisio ailffurfio'r Cyngor er mwyn ei alluogi i fodloni anghenion dinasyddion Bro Morgannwg yn y dyfodol o fewn cyd-destun heriau ariannol nas gwelwyd o'r blaen. **Dylai projectau sy'n cefnogi'r Rhaglen Ail-Lunio Gwasanaethau hon sgorio'n dda yn erbyn Maen Prawf 1.**

Mae gan y Strategaeth dri amcan:

- Nodi ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau sy'n cyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion a/neu ddulliau darparu mwy effeithlon
- Wynebu heriau ariannol tra'n lliniaru effaith toriadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau
- Datblygu'r Cyngor a'i bartneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ateb heriau'r dyfodol

Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth y cyfraniad sydd gan Gynghorau Tref a Chymuned a'r sector gwirfoddol i'w wneud; mae project wedi'i neilltuo i ddatblygu'r cydberthnasau hyn a gweithio mewn partneriaeth ar brojectau penodol, gan gynnwys trosglwyddo asedau cymunedol. Os

gallwch ddangos sut mae eich project yn cysylltu â'n Rhaglen Ail-Lunio Gwasanaeth yna dylai gael sgôr uwch.

**Maen Prawf 2 - Gwerth am arian a chanlyniadau**
**Sgôr o hyd at 25**

Mae'r maen prawf hwn yn egluro ei hun. Rydyn ni am wybod beth rydych chi'n bwriadu ei wneud trwy eich project. Efallai y byddwch yn creu swyddi, yn gwella iechyd, yn creu cyllid ar gyfer eich sefydliad neu'n cymryd ased yn eich cymuned. Rhowch syniad i ni o'r hyn rydych chi'n gobeithio ei wneud a faint bydd hynny'n ei gostio. Dim ond hyn a hyn o arian sydd gennym ni a bydd projectau sy'n gwneud mwy gyda'u grantiau yn sgorio'n uwch yn yr adran hon.

**Maen prawf 3 - Ymrwymiad rhanddeiliaid wrth siapio a gweithredu'r project**
**Sgôr o hyd at 25**

Dylid datblygu projectau yn ymateb i wybodaeth leol fanwl a thystiolaeth gadarn o'r angen. Y cymunedau lleol eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i ddeall eu hamgylchiadau lleol a phennu'r rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu. Dylai ymgeiswyr egluro **pwy** yw eu rhanddeiliaid; **sut** y cawsant eu cynnwys wrth ddatblygu'r project a sut y byddant yn parhau i fod yn rhan o'i weithrediad. Dylai ymgeiswyr egluro sut y bydd y project terfynol yn cynrychioli canlyniad ymrwymiad y gymuned.

**Maen Prawf 4 - Gwerth ychwanegol a chynaliadwyedd**
**Sgôr o hyd at 25**

Dylai ymgeiswyr egluro pa werth ychwanegol a ddaw o ganlyniad i'w project, y tu hwnt i'r gweithgareddau craidd y mae'n eu gwneud ar hyn o bryd. Un ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu project yw sut y gall wella gwydnwch y sefydliad a lleihau'r ddibyniaeth ar gyllid grant yn y dyfodol. Ni allwn gynnal costau rhedeg craidd eich sefydliad gyda'r arian hwn.

## Deunydd Marchnata / Hyrwyddo

Mae eich cynnig grant yn amodol ar ddefnyddio logos y partneriaid ariannu ar gynnyrch marchnata / hyrwyddo cysylltiedig e.e. taflenni, gwefan, cyfryngau cymdeithasol, paneli dehongli. Mae canllawiau penodol ar y mater hwn y gofynnir i chi eu dilyn ac os bydd eich cais yn llwyddiannus byddwn yn ei ddarparu gyda'ch llythyr ariannu.

## A fydd angen i mi fonitro'r project?

Fel rhan o'ch cais byddwch wedi nodi'r hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni gyda'ch cyllid. Gallai hyn fod nifer yr unigolion sy'n elwa neu dderbyn hyfforddiant, neu nifer y projectau sy'n cael eu cwblhau. Byddwn yn gofyn i chi adrodd i ni ar gynnydd yn rheolaidd wrth gyflawni eich project ac ar ôl ei gwblhau. Dylech weithio gyda'n swyddogion fel rhan o'r broses ymgeisio hon i gytuno ar ganlyniadau eich project a'u nodi.

Rhaid rhoi gwybod i Gyngor Bro Morgannwg os ydych yn bwriadu newid defnydd, neu werthu unrhyw adeilad neu offer a brynwyd, a adenillwyd neu a adnewyddwyd gan ddefnyddio'r grant

hwn. Os na fydd hyn yn parhau i adlewyrchu amcanion y cynllun grant, gall CBM adennill oddi wrthych arian hyd at gyfanswm y grant a dalwyd mewn perthynas â'r project hwnnw am gyfnod o hyd at 5 mlynedd o daliad olaf y grant.

| **Dyddiad gwaredu'r ased(au)** | **Swm i'w ad-dalu** |
|---|---|
| O fewn blwyddyn | Arian i'w ad-dalu'n llawn |
| O fewn 2 flynedd | 80% o'r arian i'w ad-dalu |
| O fewn 3 blynedd | 60% o'r arian i'w ad-dalu |
| O fewn 4 blynedd | 40% o'r arian i'w ad-dalu |
| O fewn 5 mlynedd | 20% o'r arian i'w ad-dalu |
| Ar ôl 5 mlynedd | Dim arian i'w ad-dalu |

## Faint o ddyfynbrisiau y mae angen i mi eu ceisio?

Mae'r tabl tendro isod yn nodi'r weithdrefn y bydd angen i chi ei dilyn. Dylai costau pob prosiect fod yn gywir ac yn seiliedig ar ffeithiau. Ni all prosiectau sy'n cael cyllid ddychwelyd a gofyn am arian ychwanegol am na chafodd eu prosiect ei gostio'n gywir. Felly, dylid costio prosiectau ar sail dyfynbrisiau neu brofiad diweddar. Bydd gofyn i brosiectau ddarparu tystiolaeth o'r gweithgaredd tendro canlynol cyn y bydd grantiau'n cael eu talu, ac rydym yn cynghori'n gryf bod hyn yn cael ei wneud cyn cyflwyno cais

**Gwybodaeth Tendro**

| **Amcan o'r Gwerth** | **Camau Tendro Gofynnol** |
|---|---|
| Hyd at £2,499 | Gwobr uniongyrchoi |
| £2,500-£24,999 | 3 dyfynbris neu bris ysgrifenedig wedi eu ceisio gan gyflenwyr perthnasol nwyddau, gwaith a/neu wasanaethau. |
| Dros £25,000 | Proses dendro ffurfiol |

**Allbynau a Deilliannau**

Mae'n rhaid i bob prosiect sy'n cael ei ariannu gyd-fynd ag un neu fwy o'r ymyriadau a restrir ar dudalen 9 ac mae'n rhaid iddynt gyfrannu at y cynnyrch a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r ymyrraeth honno. Gellir gweld rhestr lawn o Gynnyrch a Chanlyniadau yn Atodiad A. Bydd angen i brosiectau ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cyflawni eu Cynnyrch a Chanlyniadau arfaethedig.

**Rhaid aros i'ch cais am gyllid grant gael ei gymeradwyo cyn cychwyn gwaith. Ni fydd arian grant ar gael ar gyfer gwaith a wneir cyn rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig.**

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r holl waith a gymeradwyir a chyflwyno tystiolaeth o daliad cyn y gall hawlio'r grant.

**PWYSIG**

Mae’n bwysig i chi ddarllen y nodiadau hyn a’r canllaw cam-wrth-gam ar gwblhau’ch ffurflen gais - byddant o gymorth i chi i gwblhau eich cais yn gywir ac i'ch helpu i osgoi unrhyw oedi yn y prosesu.